**Eitem Agenda Rhif 4**

**PANEL PENODIADAU ARBENNIG (Swyddog Prif Weithredol)**

**Ionawr 26 2009**

**TREFNIADAU RECRIWTIO**

**Adroddiad gan Bennaeth Personél**

**Pwrpas yr adroddiad**

1 I geisio cytundeb i'r broses ar gyfer recriwtio. Mae adroddiad yn Rhan II yn delio gyda chwestiynau ynglŷn â'r disgrifiad swydd, manyleb y person a thelerau ac amodau eraill, yn cynnwys cyflog.

**Cefndir**

2 Y bwriad yw recriwtio Swyddog Prif Weithredol. Yr ystyriaeth allweddol yw denu'r person priodol a all arwain a dargludo'r sialensiau sy'n wynebu'r Awdurdod.

3 Cynhaliwyd gweithdy gyda CET a Chynghorwyr i oleuo'r broses hon i ddeall beth yw'r sialensiau a beth sy'n ofynnol o'r Prif Weithredwr newydd. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad hyn i'r Cyngor ar Ionawr 20 2009 ac mae copi pellach wedi ei atodi i bapur Rhan 2.

4 Fe gawn gefnogaeth GatenbySanderson yn y broses yn ôl telerau cytundeb ar gyfer recriwtio uwch.

**Materion ar gyfer penderfyniad**

5 **Amserlen** – caiff hyn ei amlinellu yn atodiad 1 ac mae'n ofynnol cytuno ar ddyddiad.

6 **Hysbysebu** – Cyngor GatenbySanderson yw y dylai'r hysbysebu fod yn gyfyngedig a hynny'n ychwanegol at y gweithgaredd chwilio a ymgymerir ganddyn nhw. Y cynnig yw y dylai'r hysbysebion ymddangos yn y Guardian, LGC a MJ. Fe grynhoir oblygiadau cost gwahanol ddewisiadau'r hysbysebu yn Atodiad 2.

7 **Ymglymiad buddgyfranogwyr yn y broses** – dylai'r ganolfan asesu gynnwys paneli o fuddgyfranogwyr. Gallai'r rhain gynnwys

- CET
- Croestoriad o staff
- Arweinydd ac/arweinwyr grŵp
- Buddgyfranogwyr allanol (iechyd, adfywio?)

Fe ellid cynnal cyfweliadau unigol hefyd gyda phobl enwebedig - os dymuna'r pwyllgor - cyfle i ymgeiswyr gyfarfod ag un ai aelodau'r pwyllgor neu'r holl gynghorwyr dros ginio.

8 **Rhestr hir** - y dull gydag uwch swyddi eraill oedd y gofynnwyd i GatenbySanderson ddileu'r ymgeiswyr hynny yr oedd yn amlwg nad oeddynt yn cyfarfod â'r meini prawf. Fe rennir canlyniadau'r broses hon gyda'r panel penodi, er gwybodaeth. Neu fe allwn drefnu i'r argymhellion ar y rhestru hir gael eu hadrodd i'r panel penodi ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

Argymhellir i'r ymgeiswyr hyn gael eu cyfweld gan Luke Judd o GatenbySanderson a Jim Brookes ymgynghorydd Adnoddau Dynol sy'n gweithio gyda'r Awdurdod ar hyn o bryd.

9 **Rhestr fer –** y dull gydag uwch swyddi eraill oedd, yn dilyn y cyfweliadau rhestr hir, bod canlyniadau'r broses yn cael eu rhannu gyda'r panel penodi ynghyd ag argymhellion ar gyfer cyfweliad terfynol a'r broses asesu. Argymhellir bod y Panel Penodiadau Arbennig yn cytuno'r ymgeiswyr terfynol.

10 **Camau terfynol** - Hyd at y pwynt hwn, oni bai am eu hymglymiad yn y gweithdai i bennu swyddogaeth a gofynion Prif Weithredwr newydd, ni fydd mwyafrif llethol yr aelodau wedi bod yn ymglymedig â'r broses ac ni fyddant yn gyfarwydd â'r cyngor manwl ar yr ymgeiswyr a gafwyd drwy wahanol gamau'r broses.

Yn dilyn penodiad diweddar Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, gofynnodd aelodau am fwy o ymglymiad yn y broses. Felly, mae angen sicrhau cyfle i aelodau weld a chlywed yr ymgeiswyr. Gallai hyn fod un ai'n rhan o'r ganolfan asesu lle y gwahoddir yr holl Gynghorwyr i gyflwyniad 15 munud gan bob un o'r ymgeiswyr yn y cam olaf a dylid rhoi cyfle i adrodd yn ôl i aelodau'r Panel Penodiadau Arbennig, a/neu gan y Cyngor Llawn.

Gweler atodiad 3 ar gyfer Dydd 1 a Dydd 2 y camau terfynol.

Mae angen rhoi ystyriaeth i ddull y penodi terfynol. Hynny yw, ei wneud gan y Panel Penodiadau Arbennig a'i gadarnhau gan y Cyngor neu benodiad ymgeiswyr a roddwyd ymlaen yn dilyn y ganolfan asesu dau ddiwrnod, gan y Cyngor Llawn.

**ATODIAD 1**

**Amserlen Recriwtio Ddrafft**

Paratoi Hysbysebion }
Paratoi ‘Microsite’ gan GatenbySanderson }

Hysbysebion yn ymddangos

(Hanner tymor)

Dyddiadau cau’r hysbysebion

Rhestr Hir: Eu cytuno gan y panel penodi’n dilyn argymhellion gan GatenbySanderson

Cyfweliadau Rhagarweiniol: ymgynghorwyr gyda chefnogaeth Jim Brookes ymgynghorwr AD ar gyfer agweddau technegol

Cyfarfod Rhestr Fer – Panel Penodi

Canolfan Asesu, yn cynnwys cyfweliadau buddgyfranogwyr a digwyddiad amser cinio gyda chyflwyniad i’r holl gynghorwyr

Panel penodi’n penderfynu pa ymgeisydd neu ymgeiswyr a wahoddir i’r cyfweliad terfynol

Cyfweliad terfynol – Cyngor

**COSTAU HYSBYSEBU** **ADRODDIAD 2**

Amcangyfrifir mai costau’r gwahanol opsiynau fyddai:

Guardian ¼ tudalen - £7408
LGC ½ tudalen - £6342
MJ ½ tudalen - £4593

Mae’r holl hysbysebion yn rhai lliw llawn ac yn cynnwys 1 mis ar lein.

Gall LGC ac LG gynnig golygyddol am ddim os rhown ddigon o rybudd iddyn nhw

**ATODIAD 3**

**Drafft – Canolfan Asesu**

**DYDD 1**

10.0 am Ymgeiswyr yn cyrraedd ar gyfer brîff cychwynnol

10.30 am Asesiad ysgrifenedig (i'w gadarnhau)

12.00 – 1.00 Cinio bwffe gyda'r Panel Penodiadau, a CET

1.00 Cyfres o baneli

- CET
- Croestoriad o staff
- Arweinydd a/arweinyddion grŵp
- Buddgyfranogwyr allanol (iechyd, adfywio?)

3.30pm Cyflwyniad 15 munud i'r cyngor llawn (ar PP wedi ei gytuno ymlaen llaw)

**DYDD 2**

9.0 Panel penodiadau i gyfarfod

9.30 Ymgeisydd un

10.30 Ymgeisydd dau

11.30 Ymgeisydd tri

12.30 Toriad am ginio

1.30 Ymgeisydd pedwar

2.30 Ystyriaethau

Cymeradwyaeth i'r Cyngor Llawn neu benodiad y Cyngor Llawn i'w benderfynu